Fy Mhrofiadau

Sesiynau Herio a Phrofiadau Ysgogi

Mae sesiynau herio yn tanio fy ymennydd ac yn rhoi sgiliau newydd i fi fynd yn ôl i'r dosbarth wrth wneud fy ngwaith. Mae hyn yn fy helpu tra'n gwneud fy ngwaith ac yn codi fy safonau a fy llwyddiant gan fy mod i yn hyderus i fentro. Fy hoff weithgaredd yn y sesiynau herio oedd gweithgaredd Saesneg am Orangutan bach oherwydd ar derfyn y testun roedd y diweddglo yn drawiadol ac yn hapus. Yn ogystal, cafon ni ein herio i ddefnyddio ein dychymyg i ychwanegu at y stori—rwyf wrth fy modd yn ysgrifennu'n greadigol! Cefais y cyfle i gystadlu ym mharti Pres yr ysgol yn yr Eisteddfod ac roedd yn brofiad gwerth chweil.

Mae'r sesiynau herio yn fy helpu i feddwl mewn sefyllfa tawel a grŵp bach, sydd yn wahanol iawn i ddysgu mewn dosbarth! Mae'r sesiynau bach yn fy mharatoi yn dda ar gyfer cwestiynau heriol rwyf yn eu wynebu, yn enwedig yn y profion! Fy hoff weithgaredd oedd cynllunio stadiwm i Geraint Thomas oherwydd roedd yn gymaint o hwyl i'w gynllunio a'i baratoi. Rwy'n mwynhau perfformio gyda fy offerynnau o flaen yr ysgol ac rwyf yn gwneud hyn yn gyson, mae'n magu fy hyder wrth wneud. Braint bydd cynrychioli'r ysgol eleni yn yr eisteddfod! Rwy'n chwarae i dîm hoci yn fy amser hamdden ac yn bendant mae'r sesiynau clwb chwaraeon wedi fy mharatoi ar gyfer y clwb hwn.

Dw i'n mwynhau y sesiynau oherwydd maen nhw yn fy herio ac mae'n gwneud i fi feddwl mwy am fy ngwaith yn ogystal â dysgu llawer o bethau newydd. Rwy'n datblygu fy sgiliau ymhellach yn y sesiynau yma ac mae hyn yn fy helpu yn y dosbarth. Fy hoff sesiwn oedd un fathemateg, lle adeiladon ni stadiwm i Geraint Thomas, er na lwyddon ni gwblhau'r stadiwm gyfan! Roedd ein ymweliad i Gynhadledd Iethoedd Modern Caerdydd yn wych gan fy mod wrth fy modd yn dysgu am ddiwylliannau eraill ac arbrofi gydag ieithoedd gwahanol.

Rwy'n hoff iawn o'r gweithgareddau Cymraeg rydym ni yn eu cwblhau yn y sesiynau herio. Maen nhw'n fy herio ac yn gwneud i fi feddwl mwy am fy sgiliau, heb sôn am fod yn sesiynau diddorol. Fy hoff sesiwn eleni oedd dadansoddi cerdd Casia Wiliam, Help. Roedd y cwestiynau rhethregol wir wedi fy 'sbarduno. O ganlyniad, rwyf eisiau darllen mwy am gynhesu byd eang a dadansoddi mwy o waith Casia Wiliam.

Rwy'n teimlo fy mod yn cael fy herio ymhellach yn ystod sesiynau herio sydd yn datblygu fy sgiliau yn fwy. Fy hoff sesiynau oedd y sesiynau iaith oherwydd roedden nhw yn cynnig cyfle i ni ddarllen amrywiol gerddi a thestunau a oedd yn denu fy sylw. Fy hoff dasg oedd sesiwn Saesneg lle roedden ni yn edrych ar y gerdd, My Mum Saw a Dancing Bear, roedd yn ddoniol ond eto'n hynod ddifrifol, ac roeddwn wrth fy modd yn ei thrafod. Enillais y gadair eleni ac rwy'n filch o'r cyfleon i drafod a darllen gymaint o gerddi yn ystod y sesiynau. Rwy'n Arweinydd Digidol ac roeddwn wrth fy modd yn ystod y gweithdy dronau ac yn hyfforddi oedolion ar sut i ddefnyddio'r meddalwedd a'u codio. Profiad arbennig!

Mae'r sesiynau herio yn fy helpu i llawer pan af yn ôl i'r dosbarth i weithio, gan fy mod yn deall yn union beth i wneud mewn tasgau heriol. O ganlyniad, rwy'n anelu'n uchel ac yn herio fy hun gyda thasgau lefel 'aur'. Roeddwn yn hoffi gweithgaredd mathemategol, lle roedden ni yn adeiladu stadiwm, roeddwn yn defnyddio fy sgiliau mesuriadau ac yn gorfod datrys amryw o broblemau annisgwyl wrth fod yn bensaer! Rwy'n cael magu fy hyder perfformio wrth fod yn aelod o gast y Cyflwyniad Dramatig a phrofiad bythgofiadwy oedd canu'r piano yn y Gadeirlan yn ein gwasanaeth Nadolig!

My Experiences

Challenge Sessions and Inspiring Experiences

The challenge sessions ignite my mind and they provide me with new skills to take back to the class. This helps me when completing work and it raises my standard and success. My favourite session was an English session where we looked at a small Orang-utan because the ending of the text was effective and happy. I love to write creatively and when we got to write a new ending, I was over the moon. I had the chance to be part of the school's brass band and competed in the Eisteddfod. It was a wonderful experience.

The challenge sessions help me to think in a quiet environment which is very different to a class environment! The sessions prepare me to answer challenging questions, such as when we are completing the national tests! My favourite activity was designing a brand new stadium for Geraint Thomas; it was such good fun to design the stadium. I enjoy performing with my instruments in front of the school, it gives me a great confidence boost. It was a pleasure to represent the school this year at the eisteddfod. In my spare time, I am a member of a hockey team and the sports club helped me greatly in preparing me for playing for a team.

I enjoy the sessions as they challenge me and make me think of my work along with learning new things. I develop my skills further during these sessions and they help me in the class. My favourite sessions was a mathematics session, where we built a stadium for Geraint Thomas, although we didn't manage to complete the whole stadium! Our visit to the Cardiff Modern language Conference was excellent as I enjoy learning about different cultures and exploring new languages.

I enjoy the Welsh activities that we complete during the challenge sessions. They challenge me and make me think of my skills, as well as being very interesting! My favourite session was analysing the poem, Help by Casia Wiliam. The rhetorical questions ignited my thoughts and as a result I'm eager to read more of her work and develop my understanding about Global warm-ing.

I feel like I'm challenged during the challenge sessions and that they develop my skills further. My favourite sessions are the language sessions as they give me various opportunities to read various texts that fill me with enthusiasm. My favourite task was an English session where we looked at the poem, My Mum Saw a Dancing Bear, it was funny but yet the message was extremely serious. I loved discussing the poem. I won the chair this year and all the reading and analysing of poems helped me with my attempt. I'm a Digital Leader and I loved our drones workshop and training adults on how to use the equipment to code the drones. It was an amazing experience!

The challenge sessions help me greatly when I return to class to work as I fully understand what to do during challenging tasks. As a result I aim high and always go for the challenge—aur! I enjoyed the maths challenge where we had to build a new stadium. I used my measuring skills and was faced with various problems whilst being an architect! My confidence grows as I perform with the Cyflwyniad Dramatig and it was a great experience to play the piano in Llandaf Cathedral during our Christmas service.